# Agenda - Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**Dyddiad: Dydd Iau, 11 Chwefror 2016**

**Amser: 09.30**

**Lleoliad:**

**Ystafell Fideogynadledda, Tŷ Hywel**

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Llinos Madeley
Clerc y Pwyllgor
0300 200 6565
SeneddIechyd@Cynulliad.Cymru

**Yn ei gyfarfod ar 3 Chwefror 2016, penderfynodd y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod cyfan ar 11 Chwefror 2016.**

**1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon**

(09.30)

**2 Ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd: briffio ffeithiol ar y Bil Sylweddau Seicoweithredol a datblygiadau perthnasol yr UE**

(09.30 - 10.30)

Chloe Dunnett, Uned Cyffuriau ac Alcohol - Y Swyddfa Gartref

Angela Scrutton, Uned Cyffuriau ac Alcohol - Y Swyddfa Gartref

Joe Shapiro, Uned Cyffuriau ac Alcohol - Y Swyddfa Gartref

**Egwyl (10.30 - 10.40)**

**3 Ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd: briffio ffeithiol ar gynllun cyflenwi Llywodraeth Cymru 'Gweithio gyda'n gilydd i leihau niwed' - 2016-2018**

(10.40 - 11.10)

Tracey Breheny, Dirprwy Gyfarwyddwr Camddefnyddio Sylweddau - Llywodraeth Cymru

## 4 Sesiwn graffu gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru: dilyniant i ymchwiliad y Pwyllgor ar ofal preswyl i bobl hŷn ac adolygiad y Comisiynydd o gartrefi gofal: trafod y canlyniadau

(11.10 - 11.30) (Tudalennau 1 - 12)

## 5 Papurau i'w nodi

(11.30)

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2016**

(Tudalennau 13 - 22)

**Cyllideb Llywodraeth Cymru 2016-17: gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

(Tudalennau 23 - 29)

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Mynediad at Driniaethau Meddygol (Arloesi): gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

(Tudalen 30)

**Ymgynghoriad ar y Bil Hawliau Dynol Prydeinig: Gohebiaeth oddi wrth Cadeirydd y Cydbwyllgor Hawliau Dynol i'r Llywydd**

(Tudalennau 31 - 32)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

**Dyddiad: Dydd Mercher,**

**3 Chwefror 2016**

**Amser: 09.32 - 10.46**

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3356

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | David Rees AC (Cadeirydd)<br>Alun Davies AC<br>John Griffiths AC<br>Altaf Hussain AC<br>Elin Jones AC<br>Darren Millar AC<br>Lynne Neagle AC<br>Gwyn R Price AC<br>Lindsay Whittle AC<br>Kirsty Williams AC |
| Tystion: | Mark Drakeford AC, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Dr Ruth Hussey, Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| | Dewi Jones, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Llinos Madeley (Clerc)<br>Catherine Hunt (Ail Glerc)<br>Sian Giddins (Dirprwy Glerc)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): Cyfnod 2 - Trafod y gwelliannau

2.1 Yn unol â Rheol Sefydlog 26.21, gwaredodd y Pwyllgor y gwelliannau a ganlyn i'r Bil:

**Gwelliant 104 (Darren Millar)**

| **O blaid** | **Yn erbyn** | **Ymatal** |
|---|---|---|
| Altaf Hussain | Alun Davies | |
| Darren Millar | John Griffiths | |
| Elin Jones | Lynne Neagle | |
| Lindsay Whittle | Gwyn Price | |
| Kirsty Williams | David Rees | |
| **Gan fod y bleidlais yn gyfartal, defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw yn negyddol (yn unol â Rheol Sefydlog 6.20(ii)). Gan hynny, gwrthodwyd gwelliant 104.** | | |

**Gwelliant 105 (Darren Millar)**

| **O blaid** | **Yn erbyn** | **Ymatal** |
|---|---|---|
| Altaf Hussain | Alun Davies | |
| Darren Millar | John Griffiths | |
| Elin Jones | Lynne Neagle | |
| Lindsay Whittle | Gwyn Price | |

| | | |
|---|---|---|
| Kirsty Williams | David Rees | |
| **Gan fod y bleidlais yn gyfartal, defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw yn negyddol (yn unol â Rheol Sefydlog 6.20(ii)). Gan hynny, gwrthodwyd gwelliant 105.** | | |

Gwelliant 106 (Darren Millar)

| O blaid | Yn erbyn | Ymatal |
|---|---|---|
| Altaf Hussain | Alun Davies | |
| Darren Millar | John Griffiths | |
| Elin Jones | Lynne Neagle | |
| Lindsay Whittle | Gwyn Price | |
| Kirsty Williams | David Rees | |
| **Gan fod y bleidlais yn gyfartal, defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw yn negyddol (yn unol â Rheol Sefydlog 6.20(ii)). Gan hynny, gwrthodwyd gwelliant 106.** | | |

**Derbyniwyd gwelliant 211 (Mark Drakeford)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Gwelliant 107 (Darren Millar)

| O blaid | Yn erbyn | Ymatal |
|---|---|---|
| Altaf Hussain | Alun Davies | |
| Darren Millar | John Griffiths | |
| Elin Jones | Lynne Neagle | |
| Lindsay Whittle | Gwyn Price | |
| Kirsty Williams | David Rees | |
| **Gan fod y bleidlais yn gyfartal, defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw yn negyddol (yn unol â Rheol Sefydlog 6.20(ii)). Gan hynny, gwrthodwyd gwelliant 107.** | | |

**Derbyniwyd gwelliant 212 (Mark Drakeford)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

**Derbyniwyd gwelliant 213 (Mark Drakeford)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

**Derbyniwyd gwelliant 214 (Mark Drakeford)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

**Derbyniwyd gwelliant 215 (Mark Drakeford)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

**Gwelliant 116 (Darren Millar)**

| O blaid | Yn erbyn | Ymatal |
|---|---|---|
| Altaf Hussain | Alun Davies | |
| Darren Millar | John Griffiths | |
| Elin Jones | Lynne Neagle | |
| Lindsay Whittle | Gwyn Price | |
| Kirsty Williams | David Rees | |
| **Gan fod y bleidlais yn gyfartal, defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw yn negyddol (yn unol â Rheol Sefydlog 6.20(ii)). Gan hynny, gwrthodwyd gwelliant 116.** | | |

**Gwelliant 128 (Darren Millar)**

| O blaid | Yn erbyn | Ymatal |
|---|---|---|
| Altaf Hussain | Alun Davies | |
| Darren Millar | John Griffiths | |
| Lindsay Whittle | Elin Jones | |
| Kirsty Williams | Lynne Neagle | |
| | Gwyn Price | |
| | David Rees | |
| **Gwrthodwyd gwelliant 128.** | | |

**Gwelliant 129 (Darren Millar)**

| O blaid | Yn erbyn | Ymatal |
|---|---|---|
| Altaf Hussain | Alun Davies | |
| Darren Millar | John Griffiths | |
| Lindsay Whittle | Elin Jones | |

| | | |
|---|---|---|
| Kirsty Williams | Lynne Neagle | |
| | Gwyn Price | |
| | David Rees | |
| **Gwrthodwyd gwelliant 129.** | | |

**Gwelliant 130 (Darren Millar)**

| **O blaid** | **Yn erbyn** | **Ymatal** |
|---|---|---|
| Altaf Hussain | Alun Davies | |
| Darren Millar | John Griffiths | |
| Lindsay Whittle | Elin Jones | |
| Kirsty Williams | Lynne Neagle | |
| | Gwyn Price | |
| | David Rees | |
| **Gwrthodwyd gwelliant 130.** | | |

**Gwelliant 131 (Darren Millar)**

| **O blaid** | **Yn erbyn** | **Ymatal** |
|---|---|---|
| Altaf Hussain | Alun Davies | |
| Darren Millar | John Griffiths | |
| Lindsay Whittle | Elin Jones | |
| Kirsty Williams | Lynne Neagle | |
| | Gwyn Price | |
| | David Rees | |
| **Gwrthodwyd gwelliant 131.** | | |

**Derbyniwyd gwelliant 216 (Mark Drakeford)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

**Tynnwyd gwelliant 110 (Kirsty Williams)** yn ôl yn unol â Rheol Sefydlog 26.66(i).

**Ni chafodd gwelliant 111 (Kirsty Williams)** ei gynnig.

**Ni chafodd gwelliant 112 (Kirsty Williams)** ei gynnig.

**Ni chafodd gwelliant 113 (Kirsty Williams)** ei gynnig.

**Derbyniwyd gwelliant 94 (Mark Drakeford)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

**Derbyniwyd gwelliant 95 (Mark Drakeford)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Gwelliant 16 (Kirsty Williams)

| O blaid | Yn erbyn | Ymatal |
|---|---|---|
| Altaf Hussain | Alun Davies | |
| Darren Millar | John Griffiths | |
| Elin Jones | Lynne Neagle | |
| Lindsay Whittle | Gwyn Price | |
| Kirsty Williams | David Rees | |
| **Gan fod y bleidlais yn gyfartal, defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw yn negyddol (yn unol â Rheol Sefydlog 6.20(ii)). Gan hynny, gwrthodwyd gwelliant 16.** | | |

**Derbyniwyd gwelliant 217 (Mark Drakeford)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

**Derbyniwyd gwelliant 218 (Mark Drakeford)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

**Derbyniwyd gwelliant 219 (Mark Drakeford)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

**Derbyniwyd gwelliant 220 (Mark Drakeford)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

**Ni chafodd gwelliant 114 (Kirsty Williams)** ei gynnig.

**Derbyniwyd gwelliant 96 (Mark Drakeford)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

**Gwelliant 227 (Darren Millar)**

| O blaid | Yn erbyn | Ymatal |
|---|---|---|
| Altaf Hussain | Alun Davies | |
| Darren Millar | John Griffiths | |
| Kirsty Williams | Elin Jones | |
| | Lynne Neagle | |
| | Gwyn Price | |
| | David Rees | |
| | Lindsay Whittle | |
| **Gwrthodwyd gwelliant 227.** | | |

**Gwelliant 228 (Darren Millar)**

| O blaid | Yn erbyn | Ymatal |
|---|---|---|
| Altaf Hussain | Alun Davies | |
| Darren Millar | John Griffiths | |
| Kirsty Williams | Elin Jones | |
| | Lynne Neagle | |
| | Gwyn Price | |
| | David Rees | |
| | Lindsay Whittle | |
| **Gwrthodwyd gwelliant 228.** | | |

**Gwelliant 143 (Mark Drakeford)**

| O blaid | Yn erbyn | Ymatal |
|---|---|---|
| Alun Davies | Altaf Hussain | |
| John Griffiths | Darren Millar | |
| Elin Jones | Lindsay Whittle | |

| | | |
|---|---|---|
| Lynne Neagle | Kirsty Williams | |
| Gwyn Price | | |
| David Rees | | |
| **Derbyniwyd gwelliant 143.** | | |

Oherwydd **y** derbyniwyd **gwelliant 143 (Mark Drakeford),** gwrthodwyd gwelliannau 2 a 3 (Kirsty Williams).

**Gwelliant 229 (Darren Millar)**

| **O blaid** | **Yn erbyn** | **Ymatal** |
|---|---|---|
| Altaf Hussain | Alun Davies | |
| Darren Millar | John Griffiths | |
| Elin Jones | Lynne Neagle | |
| Lindsay Whittle | Gwyn Price | |
| Kirsty Williams | David Rees | |
| **Gan fod y bleidlais yn gyfartal, defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw yn negyddol (yn unol â Rheol Sefydlog 6.20(ii)). Gan hynny, gwrthodwyd gwelliant 229.** | | |

**Gwelliant 224 (Darren Millar)**

| **O blaid** | **Yn erbyn** | **Ymatal** |
|---|---|---|
| Altaf Hussain | Alun Davies | |
| Darren Millar | John Griffiths | |
| Kirsty Williams | Elin Jones | |
| | Lynne Neagle | |
| | Gwyn Price | |
| | David Rees | |
| | Lindsay Whittle | |
| **Gwrthodwyd gwelliant 224.** | | |

**Derbyniwyd gwelliant 144 (Mark Drakeford)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

**Ni chafodd gwelliant 109 (Kirsty Williams)** ei gynnig.

**Gwelliant 1 (Kirsty Williams)**

| O blaid | Yn erbyn | Ymatal |
|---|---|---|
| Altaf Hussain | Alun Davies | Elin Jones |
| Darren Millar | John Griffiths | |
| Lindsay Whittle | Lynne Neagle | |
| Kirsty Williams | Gwyn Price | |
| | David Rees | |
| **Gwrthodwyd gwelliant 1.** | | |

**Derbyniwyd gwelliant 142 (Mark Drakeford)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

**Ni chafodd gwelliant 108 (Kirsty Williams)** ei gynnig.

2.2 Barnwyd bod y pwyllgor yn derbyn pob adran o'r Bil.

## 3 Papurau i'w nodi

### 3.1 Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 14, 20 a 28 Ionawr 2016

3.1a Nododd y Pwyllgor y cofnodion.

### 3.2 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): ymateb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor

3.2a Nododd y Pwyllgor yr ymateb.

### 3.3 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2016-17: gwybodaeth ychwanegol a gafwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

3.3a Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac o'r cyfarfodydd ar 11 Chwefror, 24 Chwefror a 9 Mawrth 2016

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P-MD-0437/16

David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

31 January 2016

Annwyl David,

Rwy'n ysgrifennu yn sgil eich cais am wybodaeth ychwanegol yn eich llythyr dyddiedig 19 Ionawr 2016. Gofynnwyd am y wybodaeth a ganlyn:

1) Rhagor o wybodaeth er mwyn dangos:
   - sut y mae'r gyllideb ddrafft yn sicrhau bod trawsnewid gwasanaethau yn cael ei gyflwyno yn 2016-17;
   - sut y bydd y cyllid ychwanegol a ddyrannwyd ar gyfer 2016-17 yn arwain at wella gwasanaethau ymhellach yn hytrach nag ariannu aneffeithlonrwydd neu wneud iawn am orwario;
   - i ba raddau y bydd y dyraniadau a wnaed yn ddigonol i gyflawni targedau perfformiad allweddol (e.e. amseroedd triniaeth canser, amseroedd aros ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol, triniaeth cleifion mewnol ac achosion dydd a mynediad i wasanaethau diagnostig)

Ym mis Hydref 2015, darparwyd Fframwaith Cynllunio a chanllawiau i'r Byrddau a'r Ymddiriedolaethau Iechyd sy'n pennu gofynion cynllunio clir ar gyfer 2016-17. Disgwylir i'r sefydliadau gynllunio a darparu gwasanaethau ar sail y dogfennau hyn. Nod y gofynion yw sicrhau bod y sefydliadau'n gweithio'n effeithlon, gan sicrhau gwelliant parhaus yn erbyn yr ystod o flaenoriaethau a nodir yn y canllawiau. Bydd hyn yn sicrhau bod modd gwneud cynnydd o ran cyflawni'r newid trawsnewidiol sy'n ofynnol i wireddu cyfeiriad strategol gofal iechyd yng Nghymru.
Fel y nodwyd yng nghyllideb ddrafft 2016/17, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu swm ychwanegol o £200m i ariannu'r Byrddau Iechyd Lleol, sef y swm y pennwyd yn annibynnol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford @wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

fod ei angen i gynnal gwasanaethau o safon ac i ateb y pwysau o ran galw ar y GIG yn 2016/17. Mae'r gyllideb ddrafft hefyd yn cynnwys £60m pellach i helpu i ddarparu gofal yn nes at y cartref. Bydd y £60m yn darparu cynnydd pellach o £30m i'r gronfa Gofal Integredig i helpu i hybu'r dull integredig o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a £30m i chwilio am ffyrdd o wella'r gwasanaethau i Bobl Hŷn a'r gwasanaethau Iechyd Meddwl. Bydd hyn yn helpu i sbarduno gwelliannau pellach i'r gwasanaethau yn y meysydd hyn, a byddant yn cael eu llywio drwy'r broses gynllunio.

Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru'n asesu'r Cynlluniau Tymor Canolig Integredig a gyflwynwyd ddiwedd mis Ionawr yn erbyn y canllawiau cynllunio i sicrhau eu bod yn cynnwys gwelliannau i'r gwasanaethau, canlyniadau ansawdd a gofynion perfformiad, a newidiadau i'r gweithlu o fewn yr adnoddau a ddyrennir i'r Byrddau Iechyd Lleol ar ôl i gyllideb 2016/17 gael ei chymeradwyo. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd am y gyllideb ddrafft hyd yma yn sicrhau bod modd i sefydliadau'r GIG gynllunio'n hyderus ac rydym wedi pennu disgwyliadau clir o ran y gwelliannau a ddisgwylir ar draws yr holl feysydd perfformiad allweddol hyn.

Lle bo'n briodol, byddwn yn defnyddio'r broses gynllunio, trefniadau monitro ac uwchgyfeirio a dulliau eraill i helpu i lywio'r newidiadau trawsnewidiol, yr arbedion effeithlonrwydd a'r gwelliannau o ran perfformiad a ddisgwylir gan sefydliadau'r GIG yng Nghymru.

2) Rhagor o wybodaeth am sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu gweithio ar draws y llywodraeth, ac yng nghyd-destun ehangach cyfyngiadau ariannol, er mwyn sicrhau:
   - na fydd y gostyngiad yn setliad ariannol llywodraeth leol yn arwain at ostyngiad o ran argaeledd ac ansawdd gofal cymdeithasol, gan gynnwys gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar;
   - na fydd gweithrediad y meini prawf cymhwysedd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015 yn cael effaith andwyol ar ddefnyddwyr y gwasanaeth, nac yn arwain at unrhyw gyfyngiadau amhriodol o ran mynediad at y gwasanaethau cymdeithasol;
   - bydd mecanweithiau yn eu lle i fonitro effeithiolrwydd ac effaith cyfuno cyllidebau;
   - lliniaru'r risg y gallai toriadau mewn cyllidebau llywodraeth leol gael effaith negyddol ar allu ysbytai i ryddhau cleifion i dderbyn gofal yn y gymuned.

Mae ein cyllideb yn buddsoddi mewn gwasanaethau cymdeithasol mewn ffordd sy'n cydnabod bod rhaid i iechyd a gwasanaethau cymdeithasol weithredu fel un system a chanolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar. Mae cyllid gwasanaethau cymdeithasol wedi cael ei ddiogelu drwy'r Grant Cynnal Refeniw, gyda £10 miliwn ychwanegol wedi'i ddyrannu yn 2015-16 a £21 miliwn ychwanegol ar gyfer 2016-17. Yn sgil darparu cyllid ychwanegol i'n Cronfa Gofal Canolraddol sy'n torri tir newydd, bydd cyfanswm o £50 miliwn yn y gronfa honno o 2016-17. Defnyddir y cyllid hwn i gefnogi'r camau i weithredu fel un system ac i sicrhau bod pobl Cymru'n cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt pan fo'u hangen arnynt.

Rwyf eisoes wedi ymrwymo i fonitro'r camau i roi ar waith y meini prawf cymhwyster newydd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015.

Mae Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn darparu i'r byrddau partneriaeth rhanbarthol sefydlu cronfeydd cyfun. Yn unol â'r rheoliadau, mae hefyd yn ofynnol i'r byrddau partneriaeth rhanbarthol baratoi adroddiad ar y graddau y mae amcanion y bwrdd wedi'u bodloni. Rhaid cyflwyno'r adroddiad hwn i'r Gweinidogion. Mae'r canllawiau statudol hefyd yn datgan bod rhaid rhoi trefniadau monitro cynhwysfawr ar waith i sicrhau bod y nodau a'r amcanion yn cael eu cyflawni. Byddwn yn adolygu'r adroddiadau a'r cynnydd a wnaed gan y byrddau partneriaeth rhanbarthol o ran eu hamcanion, gan gynnwys effeithiolrwydd y cronfeydd cyfun.

Rwy'n disgwyl i'r awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd gydweithio drwy'r trefniadau partneriaeth statudol newydd sy'n ofynnol o dan Ran 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i ddefnyddio'r holl gyllid sydd ar gael iddynt yn briodol i greu gwasanaethau ymatebol sy'n cynorthwyo pobl i gynnal eu hannibyniaeth a'u lles a, lle bo angen, i'w hadennill.

3) Manylion y cynllun gweithredu i gyflawni'r gwaith ar lifau ariannol, gan gynnwys yr amserlenni ar gyfer cymhwyso'r fethodoleg newydd.

Nid yw canlyniad y gwaith ar y llifau ariannol rhyngsefydliadol o fewn GIG Cymru wedi'i gwblhau na'i gymeradwyo'n derfynol ar ran GIG Cymru, felly nid yw'n debygol y bydd modd cyflawni'r newid i'r system gyfan yn 2016/17 a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar y prosesau dyrannu. Fodd bynnag, rhagwelir y gallai cytundebau llif ariannol rhyngsefydliadol lleol newydd gael eu rhoi ar waith yn ystod 2016/17 ar gyfer newidiadau i wasanaethau a throsglwyddiadau gwasanaeth yr ymgynghorwyd ac y cytunwyd arnynt yn flaenorol.

Bydd swyddogion yn parhau i gynorthwyo grŵp cydweithredol GIG Cymru i lunio egwyddorion clir a fframwaith, dros y tri i bum mis nesaf, er mwyn iddynt fod ar gael i'w defnyddio. Gall fod rhai cyfleoedd i'w defnyddio mewn rhai enghreifftiau penodol yn ystod 2016-17, gan fanteisio ar brofiadau yng Nghymru ac yn ehangach.

4) Crynodeb o ganlyniadau mentrau a ariennir gan y Gronfa Gofal Canolraddol, gyda ffocws arbennig ar feysydd o arfer da y dylid ei rannu a'i gyflwyno ar draws Cymru.

O ran effaith, mae pob rhanbarth wedi rhoi gwybod bod y Gronfa Gofal Canolraddol wedi meithrin diwylliant cydweithredol, gan wella'r broses o gyfathrebu a phenderfynu ar draws pob sector. Mae'r partneriaid wedi dod i ddeall mwy am yr hyn y gall gwahanol bartneriaid ei ddarparu a dod i wybod mwy am yr arferion da yn y rhanbarth y gellir eu datblygu a'u rhannu'n ehangach. Mae'r gronfa hefyd wedi cynyddu'r capasiti i wella'r canlyniadau i bobl ac i ymdrin â'r galw ar wasanaethau. Ymhlith yr enghreifftiau o arferion da mae pwynt mynediad sengl, timau gofal canolraddol (sy'n sicrhau bod gwasanaethau cydgysylltiedig yn cael eu darparu ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol), timau ymateb cyflym, staff gofal cymdeithasol neu staff o'r trydydd sector yn gweithio ochr yn ochr â staff iechyd mewn ysbytai i sicrhau nad oes oedi cyn rhyddhau cleifion, ac ystod ehangach o wasanaethau adsefydlu/ailalluogi (gan gynnwys defnyddio fflatiau gofal canolraddol mewn canolfan iechyd, gofal cymdeithasol a chymunedol ehangach).

Ceir enghreifftiau o effaith prosiectau'r Gronfa Gofal Canolraddol yn atodiad 1 i'r llythyr hwn.

5) Diweddariad ar y cynnydd a wnaed i roi Rhaglen De Cymru ar waith a'r amserlen ddiweddaraf ar gyfer cwblhau a chomisiynu'r Ganolfan Gofal Arbenigol a Chritigol.

Rwyf wedi cael ar ddeall gan y byrddau iechyd fod y gwaith ar y cynlluniau gweithredu manwl o ran y gwasanaethau sy'n rhan o Raglen De Cymru'n parhau. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar y model manwl ar gyfer gwasanaethau pediatrig, newyddenedigol ac obstetrig, gan gynnwys cynllunio a phrofi'r model asesu pediatrig lleol. Mae ceisiadau cyfalaf penodol hefyd wedi dod i law e.e. o ran gwasanaethau newyddenedigol yn ardal Rhaglen De Cymru. Mae'r byrddau iechyd hefyd yn ystyried addasu'r dalgylchoedd poblogaeth ar gyfer meddygaeth acíwt, a threfniadau rhwydwaith ar gyfer meysydd arbenigol eraill. Rwy'n dal i ddisgwyl i'r Byrddau Iechyd weithio mewn modd cytbwys i sicrhau cydbwysedd o ran gweithgarwch a chapasiti gwasanaethau, yn unol â'r egwyddorion a bennwyd ganddynt ar gyfer Rhaglen De Cymru.

Un datblygiad pwysig yw'r ganolfan meddygaeth acíwt newydd a agorwyd yn ddiweddar gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg i wella ansawdd y

gofal a ddarperir yn lleol ac i helpu i ysgafnhau'r pwysau ar yr adran damweiniau ac achosion brys. O dan delerau Rhaglen De Cymru, caiff Ysbyty Brenhinol Morgannwg ei ddatblygu fel 'safle disglair' ar gyfer meddygaeth acíwt yn y rhanbarth, gan arwain at symud gwasanaethau damweiniau ac achosion brys, mamolaeth a newyddenedigol a gwasanaethau pediatrig i gleifion mewnol o dan arweiniad meddyg ymgynghorol i safleoedd eraill. Bydd y gwasanaeth meddygaeth acíwt newydd yn cael ei ddarparu ym mynedfa flaen yr uned achosion brys i ddarparu diagnosis cyflymach ac i sicrhau nad oes rhaid i gleifion aros mor hir. Yn ogystal, mae cyllid cyfalaf wedi'i glustnodi y flwyddyn nesaf i gefnogi'r Ganolfan Ddiagnostig yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn buddsoddi mewn gwaith cynnar i ddwyn y cynllun ymlaen.

Ganol mis Hydref, cyflwynodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yr Achos Busnes Llawn ar gyfer y Ganolfan Gofal Arbenigol a Chritigol i Lywodraeth Cymru ei ystyried. Fel y byddech yn ei ddisgwyl o ystyried gwerth sylweddol y buddsoddiad, mae angen bwrw golwg trylwyr a phriodol dros yr achos busnes ac mae'r gwaith hwnnw'n mynd rhagddo'n gyflym. Rwyf wedi nodi y dylai pob buddsoddiad cyfalaf yn y GIG fodloni meini prawf buddsoddi allweddol, sef cynnydd mewn iechyd, tegwch, cynaliadwyedd clinigol a chynaliadwyedd sgiliau, gwerth am arian a fforddiadwyedd refeniw, ac mae'r achos busnes yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf hyn. Mae'r Ganolfan Gofal Arbenigol a Chritigol yn dal i fod yn fuddsoddiad allweddol ym Mlaenraglen Gyfalaf y GIG ac, fel yr eglurais wrth y Pwyllgor, rwyf wedi clustnodi £36.9 miliwn o gyllid cyfalaf y flwyddyn nesaf i roi'r cynllun ar waith ar yr amod bod achos busnes boddhaol yn mynd drwy'r broses cymeradwyo cyfalaf.

6) Braslun o'r modd y mae'r gyllideb ddrafft wedi'i llunio i sicrhau:
   - bod yna weithlu gofal sylfaenol cynaliadwy;
   - bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau cydbwysedd rhwng cyfran y meddygon teulu a'r gweithwyr iechyd proffesiynol eraill ym maes gofal sylfaenol.

Fel y nodir yn "Ein cynllun ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol i Gymru" a'r cyhoeddiad sy'n cyd-fynd ag ef, "Gweithlu gofal sylfaenol wedi'i gynllunio i Gymru", mae mynd ati i ddatblygu gweithlu gofal sylfaenol mwy amrywiol yn allweddol i'w gynaliadwyedd. Mae angen inni ymateb i'r pwysau ar y modelau a ddefnyddiwyd yn draddodiadol i ddarparu'r gwasanaeth, lle mae pobl yn mynd, gan mwyaf, i weld eu meddyg teulu ni waeth pa broblem iechyd sydd ganddynt, drwy greu model lle mae pobl yn cael triniaeth gan y gweithiwr proffesiynol â'r sgiliau mwyaf addas i ateb eu gofynion. I wneud hyn, rhaid inni fuddsoddi mewn ystod eang o broffesiynau a all weithio fel rhan o dîm amlddisgyblaethol lle mae pawb yn gweithio hyd at eithaf eu cymhwysedd clinigol. Bydd hefyd angen sicrhau bod yr unigolion hynny'n meddu ar y sgiliau i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen i gadw pobl yn iach ac yn weithgar yn eu cymunedau.

Cafodd y rhan fwyaf o'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd eleni ei fuddsoddi mewn datblygiadau o'r math hwn yn union – mewn sgiliau, swyddi a gwasanaethau newydd. Bydd y gyllideb ddrafft yn darparu cronfa gofal sylfaenol genedlaethol gwerth £40m eto yn 2016-17 er mwyn parhau i sicrhau cynaliadwyedd, gwella mynediad a symud gwasanaethau o ysbytai i'r gymuned. Byddwn yn craffu ar y cytundebau cyflenwi a ddarparwyd gan y byrddau iechyd eleni cyn y rownd gyllido newydd er mwyn dyrannu arian pellach ar sail tystiolaeth o'r hyn a gyflawnwyd hyd yma a chyfleoedd yn y dyfodol sy'n seiliedig ar eu cynlluniau tymor canolig integredig diwygiedig. Byddwn hefyd yn craffu ar y cytundebau hyn i gael hyd i dystiolaeth bendant o'r modd y maent yn bwriadu datblygu'r gwasanaethau gofal sylfaenol sydd eu hangen ar Gymru. Fel y dywedais yn ystod y sesiwn dystiolaeth, rydym am ddysgu o'r hyn sydd wedi gweithio orau er mwyn manteisio ar hynny y flwyddyn nesaf.

O ran eich cwestiwn am y camau sy'n cael eu cymryd i daro cydbwysedd rhwng cyfran y meddygon teulu a'r gweithwyr iechyd proffesiynol eraill ym maes gofal sylfaenol, nid wyf yn credu ei bod yn briodol i Lywodraeth Cymru bennu hyn. Mae angen i'r cymysgedd o sgiliau

sydd ei angen ar lefel leol gael ei lywio gan gynlluniau sy'n seiliedig ar y boblogaeth a thrwy i'r byrddau iechyd lleol a'u clystyrau gydweithio. Ar lefel genedlaethol, fel y gŵyr y Pwyllgor, rwyf wedi derbyn yr argymhelliad a oedd yn codi o'i ymchwiliad byr i weithlu meddygon teulu Cymru i adolygu bob blwyddyn nifer y lleoedd hyfforddi sydd ar gael i feddygon teulu yng Nghymru, ac mae cynllun y gweithlu gofal sylfaenol hefyd yn cynnwys camau i helpu i fynd i'r afael â'r problemau hysbys o ran recriwtio a chadw meddygon teulu. Mae ein cynlluniau gweithlu, sy'n cael eu llywio drwy'r clystyrau, yn canolbwyntio ar ddatblygu timau gofal sylfaenol amlddisgyblaethol ehangach.

7) Rhagor o wybodaeth am y cynlluniau sy'n cael eu rhoi ar waith i gyflwyno'r hyblygrwydd sydd ei angen i hwyluso datblygiad pellach gwasanaethau ataliol

Nid dim ond yng nghyd-destun gofal iechyd y mae gwasanaethau ataliol yn cael eu darparu. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn sicrhau bod atal yn egwyddor graidd sy'n llywio gweithgareddau'r holl wasanaethau cyhoeddus ac mae'n bwysig cadw ffocws ehangach ar benderfynyddion iechyd. Fodd bynnag, mae gan y GIG integredig yng Nghymru gyfraniad pwysig i'w wneud drwy gyfrwng gwasanaethau gofal iechyd ataliol. Cafodd £81.7 miliwn o gyllid craidd ei ddyrannu yn 2015-16 i Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddarparu ystod o fesurau i atal afiechyd (ynghyd â nifer o swyddogaethau eraill o ran iechyd y cyhoedd).

Mae'r Byrddau Iechyd, gan gydweithio â'u cymunedau a'u partneriaid lleol, yn gyfrifol am iechyd y boblogaeth. Drwy fframwaith cynllunio'r GIG, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir ei bod yn disgwyl i'r Byrddau Iechyd gynnwys camau i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau yn eu cynlluniau tymor canolig integredig, a hynny mewn egwyddor a thrwy'r gofyniad i ymateb i'r blaenoriaethau cenedlaethol allweddol o ran iechyd y cyhoedd, fel mynd i'r afael â gordewdra, lleihau nifer y bobl sy'n smygu, a gwella lles meddwl.

Yn yr arolwg diweddaraf o iechyd y genedl a gyhoeddwyd ym mis Mehefin, ceir arwyddion calonogol bod y sefyllfa'n gwella:

- Mae nifer y bobl sy'n smygu wedi disgyn i'w lefel isaf erioed – dywedodd 20% o'r oedolion eu bod yn smygu ar hyn o bryd, sef gostyngiad o 21% yn 2013 a 26% yn 2003/04
- Mae nifer y bobl sy'n yfed ac yn goryfed mewn pyliau wedi disgyn eto i'w lefel isaf – dywedodd 40% o'r oedolion eu bod wedi yfed mwy na'r canllawiau arfaethedig ar un diwrnod o leiaf yn ystod yr wythnos ddiwethaf, sef gostyngiad o 42% yn 2013
- Nid yw'r cyfraddau gordewdra wedi cynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf

Yn gynyddol, mae'r byrddau iechyd, drwy eu clystyrau, hefyd mewn gwell sefyllfa i ragweld angen ac i weithredu'n gynnar ar ei sail. Maent yn cynllunio ac yn cyflwyno modelau gwasanaeth newydd i bennu'n systematig unigolion y mae mwy o berygl y bydd angen gofal heb ei drefnu arnynt, fel pobl fregus, pobl hŷn a phobl â chyd-afiachusrwydd. Maent yn cytuno ar gynlluniau gofal unigol gyda'r unigolion hyn sy'n cynnwys nodau a chamau gweithredu i'w helpu i gadw'n iach ac yn nodi'r camau i'w cymryd os bydd problemau'n codi.

Mae'r gronfa gofal sylfaenol genedlaethol gwerth £40m hefyd yn cefnogi'r camau i symud at wasanaethau ymhellach i fyny'r gadwyn a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Byddwn yn cadarnhau'r modd y caiff y £40m ei ddefnyddio yn 2016-17 yng ngoleuni'r dystiolaeth o'r hyn a gyflawnwyd yn 2015-16.

8) Eglurhad ynghylch:
   - sut y mae costau cyffredinol gweithredu deddfwriaeth wedi cael eu hamcangyfrif;
   - pa waith fydd yn cael ei wneud i reoli, monitro ac adrodd ar y costau hyn;

- a fydd y gyllideb yn ddigonol i ddelio ag unrhyw gostau posibl sy'n ymwneud â deddfwriaeth nad yw wedi'i nodi yn ei adroddiad (e.e. Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru));
- a fydd y cyllid a nodwyd ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ddigonol.

Mae costau cyffredinol rhoi deddfwriaeth ar waith yn cael eu hasesu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer pob Bil, ac mae'r costau'n cael eu hailasesu ar adegau penodol yn ystod y broses ddeddfu. Caiff y costau a'r buddion a nodir yn y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol eu pennu mewn sawl ffordd, gan gynnwys drwy ddefnyddio tystiolaeth gan randdeiliaid. Er enghraifft:

O ran Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), cafodd y costau a'r buddion sy'n gysylltiedig â phob opsiwn eu paratoi gan ddefnyddio'r wybodaeth orau a oedd ar gael ar y pryd. Cafodd y wybodaeth hon ei pharatoi drwy drafod â'r rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys yr awdurdodau lleol, y byrddau iechyd lleol ac asiantaethau eraill. Mae'r Bil wrthi'n mynd drwy'r broses ddeddfu ac fe allai newid. I gyfrif am hyn, cafodd swm sy'n uwch na'r costau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei ddyrannu yn 2016-17 i wneud yn siŵr bod digon o arian ar gael i'w roi ar waith.

Bydd y modd y caiff costau deddfwriaeth eu rheoli a'u monitro, a'r modd yr adroddir arnynt, yn amrywio yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth ei hun. Er enghraifft:

Mae ffrydiau cyllid grant ar gael i gefnogi'r camau i roi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith, gan gynnwys y grant Cyflawni Trawsnewid a grant Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol. Mae gan y grantiau hyn eu trefniadau monitro ac adolygu eu hunain sy'n dilyn gofynion monitro corfforaethol Llywodraeth Cymru. Mae prosesau ymgeisio ar gael ar gyfer y grantiau hefyd sy'n caniatáu i Lywodraeth Cymru bennu'r allbwn yn erbyn y cyllid arfaethedig. Bydd costau eraill yn cael eu monitro a'u gwerthuso'n ofalus gan yr awdurdodau lleol ar lefelau lleol a rhanbarthol a chan Lywodraeth Cymru ar lefel genedlaethol. Caiff y gwerthusiad hwn ei ddefnyddio i bennu a yw'r system newydd yn bodloni nodau'r Ddeddf neu a oes angen ei mireinio ymhellach. Yn yr un modd, bydd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn cydymffurfio â gofynion monitro corfforaethol Llywodraeth Cymru o ran rhoi deddfwriaeth ar waith.

Bydd rhaglen o weithgareddau monitro a gwerthuso yn cael ei pharatoi ar gyfer Bil Iechyd y Cyhoedd er mwyn cyd-daro â gweithgareddau a dyddiadau allweddol. Byddwn yn ystyried amrywiaeth o ddulliau ymchwilio a gwerthuso er mwyn gwerthuso'r costau a'r effeithiolrwydd o ran costau.

Bydd cost Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, gan gynnwys cywirdeb y costau amcangyfrifedig a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn rhan o adroddiad y Gweinidog i'r Cynulliad. Caiff yr adroddiad cyntaf ei gyflwyno, yn unol â gofynion y Ddeddf, ar ôl i'r tair blynedd gyntaf ddod i ben, sef cyn 31 Mawrth 2018.

O ran Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013, roedd y rhan fwyaf o'r costau gweithredu'n gysylltiedig â'r ymgyrch gyfathrebu a'r gwaith o ailddatblygu'r gofrestr rhoddwyr organau. Gwnaed rhai newidiadau gan mai amcangyfrifon oedd y costau. Ar ôl dyfarnu'r tendrau, mae angen £75k ychwanegol (£231k i gyd) ar gyfer costau'r newidiadau TG yn 2016/17 a £10k (£105k i gyd) ar gyfer gwerthuso. Felly, £617k fydd cyfanswm y gwariant yn 2016/17. Fodd bynnag, cafodd yr arian hwn ei gario drosodd o'r flwyddyn flaenorol felly nid yw costau cyffredinol rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith wedi newid.

Bil Aelod Preifat yw Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru). Felly, yr Aelod Cyfrifol sy'n asesu costau rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith ac nid Llywodraeth Cymru. Disgwylir i'r Aelod

Cyfrifol gyhoeddi'r asesiad diweddaraf o'r costau mewn Memorandwm Esboniadol diwygiedig ar 27 Ionawr 2016. Os caiff y Bil ei basio gan y Cynulliad, caiff ei ariannu drwy 'Darparu Gwasanaethau Craidd y GIG'.

Disgwylir i'r arian a bennwyd i roi ar waith Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fod yn ddigonol i roi'r Ddeddf ar waith. Drwy'r Ddeddf, mae system gofal cymdeithasol Cymru'n cael ei hailddylunio i symud ffocws y system oddi wrth ymyriadau hwyr sy'n ymwthiol ac yn ddrud tuag at waith ataliol cynnar wedi'i dargedu. Mae pob parti wedi cydnabod bod angen canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar i sicrhau bod y gwasanaethau cymdeithasol yn gynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn rhoi hwb statudol clir i'r partneriaid cyflenwi fynd i'r afael â gwasanaethau ataliol mewn ffordd arloesol, defnyddio adnoddau yn y ffordd orau, sicrhau gwerth am arian, a mynd ati i ymgysylltu â'r Trydydd Sector.

Nid wyf yn credu y bydd deddfwriaeth berthnasol arall yn effeithio'n sylweddol ar y modd y defnyddir y gyllideb a glustnodwyd ar hyn o bryd i roi'r Ddeddf ar waith.

9) Rhagor o wybodaeth am y trefniadau hirdymor ar gyfer dosbarthu'r Grant Byw'n Annibynnol unwaith y bydd y trafodaethau wedi symud ymlaen.

Mae nifer o opsiynau posibl i ddarparu cymorth o'r fath yn y dyfodol ac maent yn amrywio o barhau â'r grant i sefydlu trefniadau canolog i ddarparu taliadau sy'n debyg i fersiwn Cymru o'r Gronfa Byw'n Annibynnol. Rwyf wrthi'n ailedrych ar yr opsiynau hyn yng ngoleuni canlyniad adolygiad gwariant Llywodraeth y DU ac rwy'n bwriadu cadarnhau fy marn ar y mater hwn yn fuan. Mae fy swyddogion eisoes wedi cwrdd â chynrychiolwyr rhanddeiliaid i bennu'r wybodaeth allweddol sydd ei hangen i arfarnu'r opsiynau hyn. Bydd hyn yn cynnwys profiad o ddarparu cymorth o'r fath yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd rhestr fer o'r opsiynau a arfarnwyd ar gael erbyn canol y flwyddyn er mwyn i lywodraeth newydd Cymru benderfynu ar y ffordd ymlaen a sicrhau bod trefniadau yn eu lle mewn da bryd cyn i'r grant presennol ddod i ben ar 31 Mawrth 2017.

Yn gywir



**Mark Drakeford AC**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Eitem 5.3

**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L-MD/0012/16

Y Fonesig Rosemary Butler AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Busnes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

SeneddSiambr@Cynulliad.Cymru
SeneddIechyd@Cynulliad.Cymru

3 Chwefror 2016

Annwyl Rosemary,

Ar 13 Ionawr 2016, cyflwynais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Mynediad at Driniaethau Meddygol (Arloesi) a gafodd ei ystyried gan y Pwyllgor Busnes ar 19 Ionawr.

Yn dilyn cryn drafodaeth yn ystod y Cam Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin, rwy'n deall bod Chris Heaton-Harris AS, noddwr y Bil Aelod Preifat hwn, wedi adolygu'i safle a chyflwyno gwelliannau i'r Bil yn y Cyfnod Adrodd gan ddileu'r cymalau hynny a oedd yn ymwneud ag esgeuluster clinigol (cymalau 3 a 4). Mae'r gwelliannau hyn wedi'u cytuno bellach.

Roedd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn ymwneud â chynnwys cymalau 3 a 4. Felly, nid yw'n berthnasol bellach ac nid oes angen i'r Cynulliad ei ystyried ar hyn o bryd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mr David Rees AC, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gywir

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@cymru.gsi.gov.uk



*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

# Joint Committee on Human Rights

Committee Office · House of Commons · London · SW1A 0AA
Tel 020 7219 2797 Email JCHR@parliament.uk Website www.parliament.uk

From Rt Hon Harriet Harman MP, Chair

Rosemary Butler AM
Presiding Officer
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CN99 1NA

27 January 2015

Dear Rosemary,

I am writing to draw your attention to a letter I have sent to the Lord Chancellor following a recent visit by the Joint Committee on Human Rights to Edinburgh. During this visit, the Committee's attention was drawn to the need to ensure that the Scottish Parliament and the other devolved institutions, along with their committees and other relevant public bodies, are given a full opportunity to contribute to the Government's forthcoming consultation on its proposal to repeal the Human Rights Act and replace it with a British Bill of Rights.

You will see from my letter to Mr Gove that the JCHR has sought assurances from him that "no part of the consultation period will overlap with the period where purdah applies or the Scottish Parliament will be dissolved". I added that "clearly this will be a matter of importance not only for Scotland but also for Wales and Northern Ireland".

If the National Assembly for Wales or any of its committees wish to submit views on this matter, or on the Government's proposals, to the JCHR, I and my colleagues would be most happy to receive them, before or after the launch of the Government's consultation.

Yours sincerely,

Harriet Harman

Rt Hon Harriet Harman
Chair of the Joint Committee on Human Rights

# Joint Committee on Human Rights

Committee Office · House of Commons · London · SW1A 0AA

Tel 020 7219 2797 Email JCHR@parliament.uk Website www.parliament.uk

From Rt Hon Harriet Harman MP, Chair


Rt Hon Michael Gove MP
Lord Chancellor and Secretary of State for Justice
102 Petty France
London
SW1H 9AJ

20 January 2015

Dear Michael,

I am writing following the visit last week of the Joint Committee on Human Rights to Edinburgh. The Committee took the opportunity to meet with the Scottish Parliament's European and External Relations Committee, the Scottish Human Rights Commission, representatives from NGOs, academics and lawyers to discuss, amongst other things, the Government's proposal to repeal the Human Rights Act and replace it with a Bill of Rights.

We are concerned to ensure that the voice of Scotland is fully heard as you consider how to take this proposal forward. It is not just that they need to have their say, we need to be able to hear from them to benefit from their views and experience.

It is now under 10 weeks till the commencement of purdah in respect of the Scottish Parliament election, when the Scottish Parliament will be dissolved. The Scottish Parliament has, through its European and External Relations Committee, considered the issue of the the potential implications for Scotland of the repeal of the Human Rights Act and its replacement with a British Bill of Rights in some considerable depth. Your consultation would undoubtedly benefit from their contribution. But bearing in mind the delay in publication of the consultation document it might be the case that they would not be able to comment as the consultation will overlap with purdah. This would clearly inhibit the possibility of taking note of, and learning from, the specific and different cultural traditions – particularly of Scotland and Northern Ireland.

We note your previous promise to us to engage with the devolved administrations and consult with all citizens of the United Kingdom, in your letter dated 27 November. Accordingly, we would like to seek your assurances that no part of the consultation period will overlap with the period where purdah applies or the Scottish Parliament will be dissolved. I would ask for a response at your earliest opportunity as clearly this will be a matter of importance not only for Scotland but also for Wales and Northern Ireland.

Yours sincerely,

Harriet Harman

Rt Hon Harriet Harman
Chair of the Joint Committee on Human Rights

cc. Rt Hon Oliver Letwin MP